

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 8fed oFawrth 2016.

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Peter Thomas, Sharon Wynne Jones - Talysarn; Barry Bracegirdle, Iwan Lloyd Williams, Nerys Williams, Justin Davies, Mark Balaam - Penygroes; Eurig Wyn Evans - Neb o; Fion Jones - Nantlle; Julie Holland - Heddlu (eitem 4) / **Ymddiheuriadau:** Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir) - Penygroes; Craig ab Iago (Cynghorydd Sir); D Martin Williams - Talysarn.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** OP Huws a Harry Wyn Owen yn datgan diddordeb parthed materion parcio.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Chwefror.** Barry Bracegirdle yn datgan cywirdeb y cofnodion a Harry Wyn Owen yn eilio.
- 4. Gwarchod y Gymdogaeth.** OP Huws yn gofyn caniatad y Cyngor i roi'r rheolau sefydlog o'r neilltu a thrafod yr eitem yma drwy gyfrwng y Saesneg. Pawb yn cytuno. Cafwyd cyflwyniad gan Julie Holland ar weithdrefnau presennol cynllun Gwarchod y Gymdogaeth. Mae angen cofrestru ar wefan 'Our Watch'. Cael ei redeg gan 'Gyd-lynwyr Stryd'. Mae angen mwy o wirfoddolwyr i gofrestru fel cyd-lynwyr. Tydy'r system hon ddim yn cael ei rhedeg gan yr Heddlu, ond mae'r Heddlu yno i hwyluso a hyrwyddo'r cynllun. Mae werth cofrestru ar y wefan er mwyn derbyn gwybodaeth ddiweddar berthnasol i'r ardal am droseddau ac yn y blaen. Y Cyngor Cymuned i yrru llythyr o gefnogaeth at Julie i gefnogi system CCTV yn Trem yr Wyddfa.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion:** Potiau llwyni Stryd yr Wyddfa - ymateb gan Gyngor Gwynedd yn hysbysu y byddant yn rhoi sylw i'r potiau llwyni; Cyflwr ffordd Sgwar wrth y Fic, Penygroes - dim arian ar hyn o bryd i wneud y gwaith; Gwlliau Lon Ddwr - y gwlliau wedi derbyn sylw; Mainc Lon Ddwr - Cyngor Gwynedd (Priffyrdd) yn datgan nad ydynt yn gyfrifol - gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Alun Wyn Jones i wneud mwy o ymholiadau; Patchio, Trem yr Wyddfa - y gwaith wedi ei wneud; Ticedi parcio - derbyniwyd ystadegau parcio am y flwyddyn ddiwethaf - roedd 27 o dicedi wedi eu trosglwyddo. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ol a gofyn i'r Adran barhau efo'r gwaith a chadw llygad ar y sefyllfa; Cist Gwynedd - dim arian grant ar gyfer gwella mynwentydd; OP Huws yn adrodd yn ol o'r cyfarfod a gafodd efo'r ieuencid ynglyn a chael caban iddynt ymgynnull ynddo. Cwmni Elliott wedi dweud nad yw'r cabanau sydd ar y stad ddiwydiannol mewn cyflwr digon da i'r pwrpas hwn, ac felly wedi addo caban newydd pe tasai cynllun yn mynd yn ei flaen. OP Huws wedi trefnu cyfarfod arall efo'r ieuencid er mwyn trafod syniadau codi arian efo nhw. Roedd rhai Cynghorwyr yn datgan pryder y byddai peryg i fwy o blant gael eu denu yno, ac y byddai rhai hyn yn cyfarfod yno a dylanwadu ar y rhai ieuengach; Llwybr Talysarn (arwydd wedi ei baentio drosto) - y broblem yn parhau, a rhwystr ar draws y llwybr yn ogysta. - gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd eto i ofyn wrthynt roi sylw brys i'r gwyn; Cofeb R Williams Parry - OP Huws wedi ysgrifennu at y Brifysgol ac yn disgwyl ymateb - Eitem ar agenda mis nesaf.
- 6. Cyfarfod Her Gwynedd -** Adrodd yn ol i'r Cyngor. OP Huws, Barry Bracegirdle a Mark Balaam wedi mynychu. Dwy ran o dair o doiledau cyhoeddus Gwynedd am gau. Pryderon am dorri gwair caeau chwarae. Torriad o 20% yn y grant torri llwybrau cyhoeddus. OP Huws wedi trefnu cyfarfod rhwng Cyngor Cymuned Llanllyfni, Llanwnda a Llandwrog gyda'r bwriad o drafod sut efallai y gall Cynghorau Cymuned cyfagos gydweithio ar ambell i beth. Biniâu halen yn un pwynt trafod. Llawer o gwestiynnau angen eu codi - o ble y byddai arian ychwanegol yn dod? Meddwl am gymryd mwy o gyfrifoldebau yn anoddo iawn. Angen blaenoriaethu a phenderfynu beth sydd yn bwysig. Argraff fod y gwasanaethau sydd yn colli arian ac yn gostus wedi eu clustnodi i Gynghorau Cymuned eu cymryd drosodd. Bydd y cyfarfod yn gyfle da i Gynghorau Cymuned ddod at ei glydd i drafod yr anghenion. Esiamplau ar gael o gynghorau cymuned yn creu cynllun cymunedol i gynhyrchu arian. OP Huws am adrodd yn ol mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned.
- 7. Ceisiadau am Arian.** Trafodwyd y ceisiadau am arian - penderfynwyd cyfrannu £100 yr un i'r canlynol: Treialon Cwn Defaid Llanllyfni, Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth, Papur Bro Lleu, Cymdeithas Gardio Dyffryn Nantlle, Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni, Clwb Pel Droed Llanllyfni, Neuadd Goffa Llanllyfni, Ambiwllans Awyr Cymru, Clwb y Caban Penygroes, Seindorf Arian Dyffryn Nantlle, Llys Llywelyn, Clwb Ieuencid Dyffryn Nantlle, Canolfan Gymdeithasol Talysarn, Cruisers Talysarn, Clwb Pel Droed y Celts, Grwp Blodeuwedd. Cyfanswm £1600.

8. **Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor.** Y Fic. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod. Roedd y cyfarfod wedi bod yn un da iawn, a bu'n gyfle i'r grwpiau gwahanol yn y Dyffryn weld beth oedd y naill a'r llall yn ei wneud. Cafwyd cyflwyniad ar gynllun HWB gan Mair o grwp Cynefin. Bydd Cynefin yn cydweithio ar gynllun strategol i'r Dyffryn. Bwriedir cynnal cyfarfod eto fis Mai.

9. **Cynllunio** C16/0220/22/LL - Bryn Awelon, Ffordd Clogwyn Melyn, Penygroes - estyniad ochr. Cymeradwyo.

10. **Gohebiaeth.**

Cyngor Gwynedd

*Glanhau llwybr rhif 47 Boncen Eithin. Gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am leoliad y llwybr.

*Cyfarfod Prisiant Cyngor Gwynedd. 17/3/16. Er gwybodaeth.

*Asesiadau risg llochesi bws Gwynedd. Ebst gan Gyngor Gwynedd yn datgan fod ysbwriel yn casglu yn lloches Penygroes a'r peryg i hyn ddenu llygod. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd (Priffyrdd) i ofyn wrthynt ysgubo.

*Ymgynghoriad ar Newidiadau a Ffocws i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (25/2 i 13/4). Pecyn gan y Clerc, gwybodaeth ar y we ac yn y llyfrgell.

*Cynllun Pensiwn Llywodraeth Loel - Adrodiadau 2016. Angen gyrru ffigyrau pensiwn i Gyngor Gwynedd erbyn ganol Ebrill.

*Biniau Halen. Llythyr gan Gyngor Gwynedd yn datgan faint fyddai'r gost o lenwi biniau halen petai unrhyw Gyngor Cymuned yn penderfynu cymryd y gyfrifoldeb amdanynt.

*Gweithdai - pensiwn. Er gwybodaeth.

Arall

*Un Llais - manylion blogpost ar drosglwyddo asedau. Er gwybodaeth. Manylion llawn ar y we.

*Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol. Darllenwyd y llythyr.

*Negeseuon OWL. Gwefan - gellir cofrestru er mwyn cael negeseuon gan yr Heddlu am droseddau a phryderon lleol.

*Ymgynghorydd Un Llais - Dr Ian Gardner. Cyflwyno swyddog newydd.

*The Clerk. Cylchgrawn.

*Cyfarfod Pwyllgor Ardal Dwyfor Un Llais - 23/3/16. Y cyfarfod ym Mhwlheli.

*Medalau - penblwydd y Frenhines yn 90. Er gwybodaeth.

*Ombwdsman - Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda (ar y we).

11. **Gwefan.** Gwybodaeth am Owl / Our Watch; Trafodaethau cydweithio gwasanaethau; Ffens Ysgol Dyffryn Nantlle; Cyfraniadau Ariannol.

12. **Goleuadau Beics.** Y cynllun yn mynd yn ei flaen, ac yn llwyddiant mawr.

13. **Materion Pentrefi.** Talysarn Biniau ailgylchu yng ngwaelod Stryd Bryn Hyfryd yn beryglus - cwynion am flerwch; Angen diolch i Gyngor Gwynedd am lanhau y maes parcio tu ol i Gloddfa Glai, a chlirio'r coed. Llanllyfni Pryder o hyd am y llwybr dros y bont, a'i bod yn amhosib tramwyo drosti. Pobl a choets a phlant yn gorfod cerdded ar y lon fawr; Car yn parcio yn beryglus ar dop allt Llanllyfni; Cysylltu efo Cyngor Gwynedd i holi unwaith eto am ddatblygiadau yn Bryn Teg. Nebo Tipio anghyfreithlon ar waelod allt y mast. Sgrin car wedi ei adael dros y ffordd i'r adeilad Bwrdd Dwr ers noson rali JJ Brow (Cysylltu efo Cyfadran yr Amgylchedd). Nanllte Nifer o gwynion gan gynnwys dwr yn gorlifo.

14. **Yswiriant** penderfynwyd adnewyddu am flwyddyn.

15. **Llwybrau a Mynwentydd.** Cynllun MacPelah. Y rhan gyntaf o'r gwaith wedi ei gwblhau ac yn daclus iawn. Cynnal cyfarfod is-bwyllgor i drafod y rhan nesaf o'r gwaith. 22/2/16. Festri Soar. 7.00.

16. **Materion yn ymwedd a'r heddlu.**

17. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Dwr Cymru 113.91; Derek Pritchard £5070; Un Llais £560. Cymeradwyo.

18. ***Taenlen i'w chymeradwyo.** Cymeradwyo.

Harry Wyn Owen yn cynnig symud cyfarfodydd i Festri Soar bob mis - gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.